# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 14.06.17 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Ian Williams, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Geraint Micah.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blynyddol ar y 10.05.17 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Keith Carroll **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (10.05.17):**
   - **a)** Cadarnhaodd Ian Williams fod ganddo ddim gwrthwynebiad i fod yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2017-18.
   - **b)** Trafodwyd cyfethol tri aelod newydd i gymerid y tair sedd wag ➞ **trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.**
   - **c)** **Materion Cymunedol, Cyngor Gwynedd** - aelodau yn siomedig fod dim atebion wedi eu derbyn gan Gyngor Gwynedd eto ynglŷn â'r sylwadau diwethaf a gafodd eu cyflwyno iddynt
     **Penderfyniad** ➞ anfon llythyr eto, gyda chopi i Bennaeth yr Adran ag hefyd i'r Prif Weithredwr.

5. **Gohebiaeth:**
   - **a)** **Y Ganolfan** - derbynneb am y £100.00 a gafodd eu dalu am rent y Ganolfan am y flwyddyn 2017-18.
   - **b)** **AON –** cadarnhad fod yswiriant y Cyngor Cymuned wedi ei adnewyddu, ac yn effeithiol o 01.06.17.
   - **c)** **Dail Dysynni –** cais am gymorth ariannol wedi ei dderbyn
     **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gefnogi'r cais yma: **£50.00. Cynnig:** Ian Williams **Eilio:** Dylan Thomas.
   - **d)** **Un Llais Cymru -** Agenda'r cyfarfod nesaf - 21.06.17 a Chofnodion y cyfarfod blaenorol wedi eu derbyn. Cadarnhad fod taliad aelodaeth i Un Llais Cymru ar gyfer 2017-18 wedi ei dalu.
   - **e)** **Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned -** mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno â'r egwyddor y dylid cyfeirio rhai cwynion yn erbyn aelodau yn ôl i Gynghorau Tref a Chymuned i'w datrys yn lleol
     **Penderfyniad** ➞ mabwysiadu'r model brotocol yma sydd wedi ei baratoi gan Un Llais Cymru
     **Cynnig:** Huw Davies **Eilio:** Keith Carroll.
   - **f)** **Cyngor Gwynedd –** Rhaglen waith Mis Mehefin wedi ei derbyn.
   - **g)** **Cyngor Gwynedd - Liz Haynes,** yn hysbysu ei bod wedi derbyn cwyn ynglŷn â Japanese Knowtweed yn Llwyngwril
     **Penderfyniad** ➞ ceisio cael mwy o wybodaeth gan Barc Cenedlaethol Eryri, ynglŷn â grantiau i ymwneud a thrin problemau o'r fath yma.

6. **Materion Cynllunio:**
   - **a)** **Cais: NP5/69/390B – Fferm Llabwst, Rhoslefain –** cais i drosi adeilad amaethyddol segur i uned gwyliau (bwriad diwygiedig), yn cynnwys trosi cwt mochyn ar gyfer storio beiciau
     ➞ dim sylwadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Materion Ariannol:** Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Mai 2017 yn gywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Huw Davies **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

1. **Archwiliad Blynyddol 2016-17**

**a)** Archwiliad Mewnol wedi ei gwblhau gan Mr R D Roberts ar y 31.05.17 – dim sylwadau wedi eu derbyn.
**b)** Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.17 wedi ei hardystio gan y clerc.
**c)** Ffurflen Flynyddol wedi ei chyflwyno i'r Cyngor Cymuned i'w ystyried a'i chymeradwyo.
**d)** Ffurflen Flynyddol wedi ei llofnodi gan y Cadeirydd, yn barod i'w hanfon i'r archwilydd allanol – BDO ➞ 03.07.17.

2. Ad-daliad TAW 2016-17 wedi ei dderbyn gan HMRC **= £241.30.**
3. HMRC – PAYE i'w dalu **= £185.50.**
4. Anfoneb gan Gyngor Gwynedd = **£2,000.00** - Cyfraniad y Cyngor Cymuned i Gyngor Gwynedd yn unol â chytundeb darpariaeth toiledau 2017-18 ➞ Siec i'w yrru i Gyngor Gwynedd.
5. Gorchymyn y Banc HSBC (Mandate) angen ei adolygu - gan fod aelodau wedi gadael.
   **Penderfyniad** ➞ diweddaru'r gorchymyn presennol i enwi'r aelodau fydd yn cael arwyddo sieciau =
   Huw Davies, Geraint Edwards, Ian Williams, Kevin Goodchild, Keith Carroll a Glenda Edwards.
   Bydd rhaid cael tri arwydd ar bob un siec.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

**a)** Adroddodd Keith Carroll ei fod wedi mynychu Garddwest y Frenhines yn Buckingam Palace, yn ddiweddar a'u bod wedi cael diwrnod gwych.

**b)** Cae Chwarae, Llwyngwril: cwynion fod Japanese Knotweed a thyrchod yn y cae chwarae …..
**Penderfyniad** ➞ Geraint Micah ddim yn bresennol yn y cyfarfod ond gan fod ganddo drwydded i wneud y gwaith yma, roedd pawb yn gytûn i ofyn iddo drin y chwyn a'r tyrchod. Gofyn iddo fe gynghori os oes angen cau'r cae chwarae i wneud y gwaith yma. **Cynnig:** Huw Davies **Eilio:** Kevin Goodchild.

**c)** **Network Rail – Groesfan y Crynwyr, Llwyngwril**

- Cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â gordyfiant ar ochr y lein, yn gwneud hi'n beryglus i groesi'r lein ar y groesfan ger y Crynwyr yn Llwyngwril.
- Cwynion hefyd fod y wyneb gwrthlithro ar groesfan y Crynwyr yn Llwyngwril yn rhydd ac angen sylw
  **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Network Rail i'w gwneud yn ymwybodol o'r sylwadau yma.

**Materion Cymunedol – Cyngor Gwynedd**

**d)** **Toiledau Cyhoeddus** - cwynion wedi eu derbyn fod y gwair angen ei dorri o amgylch y toiledau yn Llwyngwril
**Penderfyniad** ➞ llythyr i'w anfon i Gyngor Gwynedd yn eu hysbysu am hyn, gan ofyn a ydynt yn torri'r gwair o amgylch y toiledau cyhoeddus yma yn y contract cynnal a chadw?
**e)** **Chwyn ger yr hen Swyddfa Bost yn Llwyngwril angen sylw** ➞ Cyngor Gwynedd yn trin y chwyn yma yn flynyddol.
**f)** **Difrod i'r wal ger mynedfa Prysgau Uchaf, Llwyngwril –** cerrig o'r wal wedi cwympo i'r ffordd fawr
**Penderfyniad** ➞ llythyr i'w anfon i Gyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol o hyn.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 12.07.17 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**